

Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Dyddiad: 18 Mehefin 2003

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

ADRODDIAD GAN Y GWEINIDOG DROS LYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Diben

1. Diben y papur hwn yw rhoi braslun i'r Pwyllgor o faterion a blaenoriaethau allweddol y portffolio Llywodraeth Leol.

Y Cefndir

2. Wrth baratoi'r adroddiad hwn rwyf wedi ceisio nodi'r prif faterion sydd ar y gweill ym maes llywodraeth leol ar hyn bryd. Maent wedi'u trefnu yn ôl meysydd pwnc ac rwyf wedi canolbwyntio yn arbennig ar y materion sy'n galw am ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

Argymhelliad

3. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys a fformat yr adroddiad a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

Materion

Cyllid Llywodraeth Leol

4. Y Mesur Llywodraeth Leol

Mae hwn ar hyn o bryd yn mynd trwy'r Senedd. Mae wedi cyrraedd Ty'r Arglwyddi lle bydd yn cael ei ystyried. Symudwyd yr amserlen ar gyfer mabwysiadu'r ddeddf ymlaen o fis Gorffennaf. Erbyn hyn, disgwylir cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Medi. Bydd nifer o gymalau yn y Mesur yn effeithio ar awdurdodau lleol yng Nghymru gan gynnwys rhai cymalau sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Mae papur manylach ar yr agenda ar gyfer cyfarfod heddiw ond efallai y byddai o gymorth pe byddwn yn tanlinellu rhai o'r prif elfennau sydd â goblygiadau ariannol -

- cymal i Gymru yn unig yn y Mesur a fydd, ar ôl ei basio, yn caniatáu i Gymru lunio dau adroddiad gwahanol ar gyfer cyllid llywodraeth leol bob blwyddyn. Un ar gyfer awdurdodau'r heddlu yng Nghymru ac un ar gyfer gweddill llywodraeth leol;
- benthyca darbodus (ceir disgrifiad ohono'n ddiweddarach);
- dileu'r ad-daliadau rhent o'r Cyfrif Refeniw Tai;

- diddymu'r system bresennol o neilltuo derbyniadau cyfalaf tai;
- sefydlu system o gyfuno derbyniadau cyfalaf tai;
- rhoi gostyngiadau treth gyngor ar ail dai a thai gwag;
- cynllun annog twf awdurdodau lleol;
- ardaloedd gwella busnes
- system newydd ar gyfer talu grantiau (grantiau gwariant).

Fy mwriad yw sicrhau bod y Pwyllgor hwn yn cael cyfle i ystyried y materion hyn. Byddaf yn cyflwyno papurau ar bob un o'r pynciau hyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Yn unrhyw achos, bydd angen cael is-ddeddfwriaeth i ddod â rhai o'r cymalau hyn i rym a bydd cyfle i drafod hyn ymhellach pan fyddaf yn cyflwyno deddfwriaeth ddrafft i gael ei hystyried. Mae papur ar wahân sy'n delio ag is-ddeddfwriaeth ar agenda heddiw hefyd.

5. Y setliad cyllid llywodraeth leol ar gyfer 2004-05

Rwy'n cynnig cyflwyno papur yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a fydd yn ystyried y blaenoriaethau o fewn Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Leol yn 2004-05. Yn ogystal, mae'r amserlen ar gyfer y setliad yn rhan hanfodol o'n proses cynllunio cyllidebau. Rwyf eisoes wedi sôn wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) am fy mwriad i lunio'r setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2004-2005 cyn Nadolig 2003. Mae hyn fis yn gynharach na'r llynedd ac yn benderfyniad sy'n deillio o gytundeb â CLILC i lunio'r setliad mor gynnar â phosibl er mwyn galluogi awdurdodau i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

6. Ailbrisio ac Ailfandio'r Dreth Gyngor 2005

Fe wnaeth y Pwyllgor Llywodraeth Leol blaenorol ystyried y mater hwn yn llawn, ond mae datblygiadau pellach wedi digwydd ers y drafodaeth ddiwethaf. Rwy'n bwriadu cyflwyno adroddiad llawn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ond, yn gryno, bydd yr ailbrisio a'r ailfandio yn dod i rym ar 1 Ebrill 2005 a bydd y gwerthoedd newydd yn seiliedig ar brisiau mis Ebrill 2003. Yr egwyddorion cyntaf y cytunwyd arnynt â llywodraeth leol oedd:

- ni ddylid cael cynnydd yn yr incwm o'r dreth gyngor na gostyngiad yn sylfaen dreth Cymru gyfan.;
- ni ddylai'r ymarfer, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros godi'r dreth gyngor;
- prif nod yr ailbrisio i fod yw tegwch i'r trethdalwr.

Ar y cyd â CLILC, mae Gweithgor Ailbrisio'r Dreth Gyngor wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer newid ar sail data gwerthu tai. Cynhaliwyd ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2002. Ond parhaodd prisiau tai i godi ar ôl i gynigion yr ymgynghoriad gael eu datblygu ac ar ôl dadansoddi ymhellach, penderfynais ymgynghori eto ar gynigion newydd ar gyfer bandiau'r dreth gyngor ar sail y data gwerthu tai sydd ar gael hyd at 1 Ebrill 2003.

7. Y System Fenthyca Ddarbodus

Mae'r system gyfredol ar gyfer cyllid cyfalaf awdurdodau lleol yn gymhleth ac yn seiliedig ar y Cynulliad yn rheoli'r swm y caniateir i awdurdodau lleol ei fenthyca drwy roi cymeradwyaeth credyd. Cyflwynwyd y system dros 10 mlynedd yn ôl ac fe basiwyd llawer o is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r system ers Deddf Llywodraeth leol a Thai 1989. Bydd y system gyfalaf ddarbodus newydd yn galluogi awdurdodau lleol i wneud eu penderfyniadau eu hunain o ran faint y gallant fforddio ei fenthyca. Felly, prif nod y system fenthyca ddarbodus yw symleiddio cyllid cyfalaf awdurdodau lleol a dileu rheolaeth y Cynulliad dros faint o gyllid y mae awdurdodau lleol yn ei fenthyca (er y bydd hyn, yn y system newydd, yn dibynnu i raddau helaeth ar ffurf a maint cymorth ariannol y Cynulliad i awdurdodau lleol). Bydd y system newydd yn parhau i atal awdurdodau lleol rhag benthyca i fuddsoddi at ddibenion cyfalaf.

Bydd faint yn union o arian ychwanegol y bydd yr awdurdodau'n gallu ei fenthyca o dan y system newydd yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob awdurdod. Hanfod y system ddarbodus yw hunan-reoleiddio, lle bydd cynghorwyr yn gyfrifol am bennu'r terfynau benthyca. Bydd y broses yn cael cymorth gan godau sydd wedi'u cyhoeddi, fel y cod ddarbodus sy'n cael ei ddatblygu yn arbennig gan CIPFA (Athrofa Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth).

Bydd sawl haen i'r system fenthyca ddarbodus. Dyma nhw:

- Y Mesur Llywodraeth Leol
- Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad
- Codau Proffesiynol

Mae'r modd y rhoddir y system ddarbodus ar waith yng Nghymru yn dibynnu ar hysbys y Mesur Llywodraeth Leol drwy'r Senedd a bydd angen cael is-ddeddfwriaeth i roi'r cynllun ar waith. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion roi cyflwyniad am y system ddarbodus i'r Pwyllgor i fynd law yn llaw â'r broses o ystyried yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu'r cynllun.

8. Adolygiad o Gydbwysedd o ran Cyllid

Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) wedi sefydlu grŵp llywio i oruchwylio adolygiad ar lefel uchel o system gyllido llywodraeth leol Lloegr. Ond am fod cyllido llywodraeth leol wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth i Gymru a Lloegr, bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau yn Lloegr yn cael effaith arwyddocaol ar Gymru. Mae fy swyddogion yn cwrdd â swyddogion y Trysorlys ac ODPM er mwyn sicrhau bod llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael gwybod am holl ddatblygiadau'r adolygiad hwn. Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor hwn pan fydd hynny'n briodol.

Perfformiad llywodraeth leol

9. Mae llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â llywodraeth leol a'i chyrrff rheoleiddio, yn bwrw ymlaen ag agenda sy'n unigryw i Gymru i sicrhau bod y

blaenoriaethau allweddol yn cael eu gweithredu a bod perfformiad gwasanaethau llywodraeth leol yn gwella'n barhaus. Prif elfennau'r dull hwn yw:

- Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae awdurdodau lleol wedi gwerthuso eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain yn drylwyr ar lefel gorfforaethol a lefel y gwasanaethau. Maent nawr yn dadansoddi'r wybodaeth honno â'u rheoleiddwyr er mwyn nodi'r meysydd lle mae angen iddynt gymryd camau i'w gwella. Bydd pob awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu sydd wedi'i dargedu at y meysydd hynny, tra bydd yr archwilwyr a'r arolygwyr yn datblygu cynllun rheoleiddio a fydd yn cydlynu eu gwaith mewn modd sy'n ategu eu hymdrechion.
- Bwrdd Gwella, fel is-grwp o'r Cyngor Partneriaeth, i oruchwylio datblygiadau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella - yn arbennig o ran datblygu cymorth i helpu awdurdodau i fynd i'r afael â meysydd penodol sydd angen eu gwella.
- Cytundebau polisi â phob awdurdod lleol. Nid yw'r cylch cyntaf o gytundebau polisi wedi cael llawer o sylw, ond mae wedi rhoi cyfle i ni ddatblygu'r dull hwn. Yn ystod y misoedd nesaf, byddaf yn gweithio â'm cydweithwyr yn y Cabinet a llywodraeth leol er mwyn bwrw ymlaen â'r gyfres nesaf o gytundebau polisi, gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol o ran cyflawni amcanion a chytuno ag awdurdodau lleol i ymestyn targedau
- Creu fframwaith ar gyfer mesur perfformiad llywodraeth leol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gallu rheoli perfformiad a gweithio'n effeithiol er mwyn cyflawni amcanion strategol
- Bydd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn galluogi awdurdodau lleol i wella eu gallu i reoli eu busnes eu hunain, gan ganolbwyntio ar nifer fach o ofynion cynllunio strategol, sy'n gysylltiedig â strategaethau cymunedol yn benodol.

10. Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor yn achlysurol ar y datblygiadau yn y meysydd hyn ac yn croesawu ei safbwyntiau.

Democratiaeth leol

11. Mae annog pobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd ac annog mwy o gysylltiad rhwng yr awdurdodau lleol a'u cymunedau yn faes pwysig arall.

12. Un elfen o'r broses hon yw ei gwneud hi'n haws i bobl ystyried sefyll fel aelod o'r cyngor lleol drwy gael gwared ar y ffactorau ariannol sy'n atal pobl rhag gwneud. Gall y posibilrwydd o golli'r hawl i gael incwm a phensiwn atal pobl rhag bod eisiau mynd yn gynghorwyr. Roedd y datganiad polisi "Rhyddid a Chyfrifoldeb" yn nodi bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud lwfansau cynghorwyr yn bensiynadwy. Roedd hefyd yn sôn am y bwriad i gyflwyno cynllun i wobrwyo cynghorwyr a roddodd wasanaeth hir ac a wnaeth sefyll i lawr yn etholiadau mis Mai 2004. Byddai hyn yn eu digolledu yn rhannol am y ffaith nad oeddent wedi cronni pensiwn yn ystod eu cyfnod fel cynghorydd. Mae llywodraeth y DU wedi penderfynu gwneud y rheoliadau angenrheidiol i fynd law yn llaw â rheoliadau'r Cynulliad ar bensiynau. Bydd y rhain yn

galluogi awdurdodau lleol i ddarparu pensiwn ar gyfer lwfansau cyfrifoldeb sylfaenol yn ogystal â lwfansau cyfrifoldeb arbennig, ond rwy'n dal i aros am yr amserlen.

13. Dim ond rhan o'r darlun yw'r gwaith yn ymwneud â lwfansau a phensiynau. Fy mwriad yw y bydd yn digwydd law yn llaw â'r camau i hybu dinasyddiaeth weithredol a gwella ymwybyddiaeth pobl o rôl cynghorwyr, gan adeiladu ar argymhellion perthnasol adroddiad Sunderland ar gyfer trefniadau etholiadol llywodraeth leol.

Camau i'w cymryd

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys yr Adroddiad hwn.

Sue Essex

Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyswllt: Mike Chown est 1367 (Materion Cyllid Llywodraeth Leol)

Kate Cassidy est 3782 (Materion Moderneiddio Llywodraeth Leol)